

## Pethau Bychain – Mei Gwynedd

<b>GAIR / YMADRODD</b>	<b>DIFFINIAD / YSTYR</b>
nentydd	mwy nag un nant, sef afon fach
meithrin	gofalu amdano a chynnal; magu
ffiniau	mwy nag un ffin
huno (uno)	gwneud yn un
iaith y ne(f)	disgrifiad traddodiadol o'r iaith Gymraeg
ddywediadau (dywediadau)	mwy nag un dywediad ( <i>sayings</i> )
cryfhawn	fe ddown ni'n gryfach
Preseli	ardal mynyddoedd y Preselau yn Sir Benfro
Fôn (Môn)	Ynys Môn/Sir Fôn
ledled Cymru	dros Gymru i gyd

## Gwisg (Ewros 2016) – Emyr Davies

<b>GAIR / YMADRODD</b>	<b>DIFFINIAD / YSTYR</b>
<b>lifrai</b>	gwisg swyddogol, e.e. gwisg milwyr
<b>ni lwfrhaf</b>	nid wyf yn troi'n llwfr ( <i>I don't feel cowardly</i> ); nid wyf yn digalonni ( <i>I don't lose heart</i> )

## Ray Gravell – Gwyn Thomas

<b>GAIR / YMADRODD</b>	<b>DIFFINIAD / YSTYR</b>
<b>ffrwydriadau</b>	mwy nag un ffrwydrad ( <i>explosions</i> )
<b>ymdrin â</b>	ymwneud â; trafod
<b>ymgomio</b>	cynnal sgwrs; siarad
<b>jersi</b>	crys
<b>Haleliwia</b>	bloedd o fawl i Dduw
<b>cyhyrog</b>	â chyhyrau amlwg ( <i>muscular</i> )
<b>y cledd</b>	Ray Gravell oedd Ceidwad y Cledd (sef cleddyf heddwch) yn seremonïau Gorsedd y Beirdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol
<b>angerdd</b>	teimlad cryf iawn
<b>llawenach</b>	mwy llawen; hapusach
<b>digofus</b>	dig oherwydd rhyw anghyfiawnder
<b>mudandod</b>	distawrwydd hollol
<b>ddadfeilio (dadfeilio)</b>	syrthio'n ddarnau; mynd yn adfail
<b>afiaith</b>	bwrlwm o fywyd; asbri; hwyl
<b>graslonrwydd</b>	y cyflwr o fod yn raslon (h.y. yn garedig a hawddgar)

## Hen Wlad Fy Nhadau – Evan James

fy nhadau	fy nghyndadau, sef aelodau o deulu'r bardd a fuodd yn byw yng Nghymru cyn ei amser ef
cantorion	pobl sy'n canu
enwogion	pobl enwog
gwrol	dewr
gwladgarwyr	pobl sy'n caru eu gwlad
tra (pennill 1)	yn arbennig o, e.e. mae 'tra mad' yn golygu 'yn arbennig o dda'
mad	da
Tros ryddid collasant eu gwaed	Fe wnaeth y gwladgarwyr golli eu gwaed er mwyn ceisio cadw Cymru'n rhydd
pleidiol	o blaid, yn cefnogi ( <i>in favour of, loyal to</i> )
tra (cytgan)	cyhyd, yn ystod yr amser ( <i>while/whilst/for as long as</i> )
pau	gwlad
Tra môr yn fur i'r bur hoff bau	Tra bo'r môr yn fur i'r wlad bur a hoff ( <i>While the sea remains a wall to the pure and dear country</i> )
O! bydded i'r hen iaith barhau	Mae 'O!' yn air sy'n cael ei ddefnyddio gan y bardd i bwysleisio cryfder ei deimladau. Mae'n awyddus dros ben i'r iaith barhau.
mynyddig	yn llawn mynyddoedd
paradwys	lle perffaith
dyffryn	cwm llydan
clogwyn	wal serth o graig
swynol	hudolus
nentydd	mwy nag un nant ( <i>streams</i> )
treisiodd	gormesodd ( <i>oppressed</i> )
(I)luddiwyd	rhwystrwyd
awen	ysbrydoliaeth y beirdd
erchyll	ofnadwy
brad	torri ymddiriedaeth, twyll ( <i>treachery</i> )
perseinol	pêr ei sain ( <i>melodious</i> )

## Myn Duw, Mi a Wn y Daw! – Dafydd Iwan

GAIR / YMADRODD	DIFFINIAD / YSTYR
myn	gair sy'n cael ei ddefnyddio ar ddechrau llw neu rheg (e.e. 'Myn yffarn i!')
ers talwm	ers llawer dydd
cri	gwaedd; llef
ar bob llaw	ar bob ochr; ym mhob man o'n cwmpas
atgo'	atgof, ffurf unigol y gair 'atgofion'
gelanedd (celanedd)	cyrff meirw
traï	llif y môr yn mynd i ffwrdd o'r lan
ofer	di-fudd; yn wast; nad yw'n cyflawni dim
tywallt	arllwys
cofrestrwn	ymunwn â'r fyddin
rengoedd (rhengoedd)	rhesi o filwyr
warth (gwarth)	teimlad poenus o euogrwydd, o gam neu o fethiant
caethiwed	y cyflwr o fod yn gaeth ( <i>captivity</i> )
gorseddwn iaith	'rhown iaith ar orsedd' (ystyr 'gorsedd' yw 'sedd y brenin')
dilëwn	cael gwared ar
awr yn hwy	awr yn hirach
taeogion	pobl gaeth, pobl nad ydyn' nhw'n barod i frwydro am eu rhyddid
'nad taeogion mohonom mwy'	'nad taeogion ydym ni ragor'
lloches	man sy'n cynnig cysgod a diogelwch
lu (llu)	nifer mawr o bobl; criw